Archwiliad 2009-10

Mawrth 2010

**Awduron: Anthony Barrett a Gilbert Lloyd** **Cyf: 206A2010**

# Strategaeth Archwilio Ariannol

# **Awdurdod Tân Gogledd Cymru**

## Cynnwys


**Strategaeth Archwilio Ariannol**

Gwaith archwilio yn Awdurdod Tân Gogledd Cymru 4

Archwiliad o'r cyfrifon 5

Hawliau etholwyr 7

Gweithio gyda'r Awdurdod 7

**Atodiadau**

Rolau a chyfrifoldebau 10

Elfennau allweddol o'r gwaith archwilio 12

## Statws yr adroddiad hwn

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Awdurdod Tân Gogledd Cymru fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio ac Arolygu a'r 'Datganiadau o Gyfrifoldebau' a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) na, lle y bo'n gymwys, yr archwilydd penodedig, mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd parti perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei harchwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

## Gwaith archwilio yn Awdurdod Tân Gogledd Cymru

1. Paratowyd y Strategaeth Archwilio Ariannol hon i fodloni gofynion y safonau archwilio a'r arferion archwilio priodol. Mae'n nodi'r gwaith sydd i'w gyflawni gan yr Archwilydd Penodedig yn Awdurdod Tân Gogledd Cymru o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.
2. Paratowyd dogfen ar wahân, sef Rhaglen Reoleiddio'r Archwilydd Cyffredinol ar gyfer Archwilio Perfformiad, i amlinellu'r gwaith sydd i'w gyflawni gan yr Archwilydd Cyffredinol o dan Fesur Llywodraeth Leol 2009. Mae hyn hefyd yn cynnwys gwaith o dan swyddogaethau eraill Deddf Llywodraeth Leol 1999.
3. Nodir rolau a chyfrifoldebau ffurfiol yr Archwilydd Penodedig yn Atodiad 1. O dan drefniadau Archwilydd Penodedig Unigol yr Archwilydd Cyffredinol, yr Archwilydd Penodedig yw Anthony Barrett, a gefnogir gan Gilbert Lloyd fel Partner Ymgysylltu.
4. Mae'n ofynnol i'r Archwilydd Penodedig archwilio a dilysu cyfrifon Awdurdod Tân Gogledd Cymru, gan fodloni ei hun fod y cyfrifon:
   - yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Awdurdod Tân Gogledd Cymru[1];
   - yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol perthnasol;
   - wedi'u paratoi yn unol ag arferion priodol.
5. Yn ogystal, mae'n ofynnol i'r Archwilydd Penodedig:
   - fodloni ei hun fod Awdurdod Tân Gogledd Cymru wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau;
   - ardystio bod yr archwiliad wedi'i gwblhau yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (yn enwedig mewn perthynas â hawliau etholwyr).
6. Yn ogystal â bodloni'r gofynion cyfreithiol, rhaid i'r Archwilydd Penodedig gydymffurfio â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (ISA). Mae'r ISA yn ei gwneud yn ofynnol i gyflwyno adroddiadau ffurfiol ar gamau amrywiol yn ystod yr archwiliad i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu (gweler Atodiad 1). Yn arbennig, fel rhan o drefniadau cynllunio'r archwiliad, rhaid i archwilwyr gyflwyno adroddiadau ar y canlynol:
   - cydberthnasau a all effeithio ar annibyniaeth yr archwilydd;
   - gwybodaeth am gynllunio archwiliad.
7. Mae Atodiad 2 yn amlygu'r elfennau allweddol o'r gwaith archwilio yn Awdurdod Tân Gogledd Cymru, ac yn cadarnhau nad oes unrhyw fygythiadau hysbys i annibyniaeth yr Archwilydd Penodedig na staff archwilio eraill.

[1] Mae hyn yn amodol ar y newidiadau a ragwelir yn y Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio.

# Archwiliad o'r cyfrifon

8. Wrth gynllunio eu gwaith, mae'n ofynnol i archwilwyr nodi a chyflwyno adroddiadau ar risgiau sylweddol sy'n ymwneud â chywirdeb a dibynadwyedd y datganiadau ariannol. Mae Arddangosyn 1 yn cynnwys y risgiau a nodwyd a'r camau gweithredu arfaethedig i fynd i'r afael â hwy.

**Arddangosyn 1: Risgiau cyfrifon ariannol**

| Risgiau amgylchedd rheoli | Camau gweithredu arfaethedig |
|---|---|
| • Oherwydd yr hinsawdd economaidd gyfredol, mae pwysau sylweddol ar yr Awdurdod i leihau costau yn y flwyddyn ariannol gyfredol ac yn y blynyddoedd i ddod. Os nad yw gweithdrefnau cyllidebu a rhagfynegi yn gadarn, gallai hyn arwain at amharu ar y broses o ddarparu gwasanaethau ac atal yr Awdurdod rhag cyflawni ei amcanion. | • Byddwn yn adolygu'r broses ar gyfer pennu'r cyllidebau refeniw a chyfalaf ac yn trafod â rheolwyr sut y caiff perfformiad yn erbyn y gyllideb ei fonitro.<br>Byddwn yn adolygu perfformiad yn erbyn y gyllideb yn y flwyddyn ariannol gyfredol a rhagamcanion ar gyfer 2010-11. |
| • Mae'n ofynnol i'r Awdurdod sicrhau bod trefniadau priodol ar waith ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau. Os nad oes gweithdrefnau priodol ar waith, mae'n ofynnol i ni nodi hynny yn ein barn archwilio ar y datganiadau ariannol. | • Byddwn yn trafod y gweithdrefnau sydd ar waith i sicrhau trefniadau priodol yn y maes hwn, yn cynnwys ystyried sut y cyflawnir gwerth am arian o ran prosiectau sylweddol yr Awdurdod. |
| • Mae gan Awdurdod Tân Gogledd Cymru swyddogaeth Archwilio Mewnol sydd wedi'i gosod ar gontract allanol i Gyngor Sir Conwy. Gall canlyniadau archwiliadau mewnol yn ystod y flwyddyn ddangos y risg o gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol. | • Byddwn yn adolygu'r adroddiadau a luniwyd gan y gwasanaeth archwilio mewnol yn ystod y flwyddyn, ac yn cyflawni gwaith dilynol ar unrhyw feysydd a all gael effaith ar y datganiadau ariannol neu ar ein casgliad gwerth am arian. |
| **Risgiau systemau ariannol** | **Camau gweithredu arfaethedig** |
| • Er na fu unrhyw newidiadau sylweddol yn y systemau ariannol yn ystod y flwyddyn, mae'r amgylchedd Technoleg Gwybodaeth (TG) yn rheolaeth sylweddol o ran prosesu trafodion a chynhyrchu data ar gyfer y datganiadau ariannol. Gallai unrhyw wendid yn yr amgylchedd arwain at gamddatganiad sylweddol yn y datganiadau ariannol. | • Byddwn yn cynnal adolygiad o'r Rheolaethau TG Cyffredinol a fydd yn ystyried meysydd megis mynediad i systemau allweddol, cywirdeb data a gweithdrefnau rheoli newid.<br>• Byddwn hefyd yn dogfennu'r gweithdrefnau sydd ar waith (megis cysoni cyfrifon) i wirio allbynnau o'r system i sicrhau y canfyddir gwallau sylweddol. |

| Risgiau o ran paratoi'r cyfrifon | Camau gweithredu arfaethedig |
|---|---|
| • Mae'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y DU - Datganiad o Arfer a Argymhellir yn cyflwyno newidiadau pellach i arferion cyfrifyddu Awdurdodau Tân o 1 Ebrill 2009. Nid oes unrhyw newidiadau sylweddol ar gyfer Awdurdod Tân Gogledd Cymru. | • Byddwn yn cwblhau rhestr wirio Datganiad o Arfer a Argymhellir 2009 i nodi unrhyw feysydd lle nad yw'r Datganiadau Ariannol yn cydymffurfio â'r Datganiad o Arfer a Argymhellir. |
| • Bydd yr Awdurdod yn symud i gyfrifyddu o dan Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) o'r flwyddyn a ddaw i ben 31 Mawrth 2011. Fel rhan o'r broses drosi, bydd angen trosi'r mantolenni ar gyfer 31 Mawrth 2009 a 2010 a'r canlyniadau ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben 31 Mawrth 2010 i Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol gan mai nhw fydd yn ffurfio'r fantolen agoriadol a rhifau cymharol o fewn y gyfres gyntaf o ddatganiadau ariannol y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Bydd y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben 31 Mawrth 2011 gynnwys datgeliadau ychwanegol. | • Er bod Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol y tu allan i gwmpas archwiliad 2009-10, byddwn yn trafod hynt y broses o drosi i Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol gyda'r adran gyllid ac yn cytuno ar amserlen ar gyfer yr adolygiad o'r fantolen agoriadol a'r rhifau cymharol a baratowyd o dan Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol er mwyn sicrhau bod y broses drosi mor ddidrafferth â phosibl. |
| • Mae'n rhaid i'r Awdurdod gwblhau pecyn cyfuno i ategu'r broses o gyfuno cyfrifon adnoddau'r sector cyhoeddus (Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan), a gyhoeddir am y tro cyntaf yn 2009-10. | • Byddwn yn cysoni'r pecyn cyfuno â'r datganiadau ariannol archwiliedig ac yn trafod unrhyw wahaniaethau gyda rheolwyr.<br>• Byddwn hefyd yn cysoni trafodion sylweddol â chyrff eraill yn y sector cyhoeddus i gadarnhad y cytunwyd arnynt. |
| **Risgiau datganiadau ariannol** | **Camau gweithredu arfaethedig** |
| • Ym mis Rhagfyr 2009, diwygiwyd y Gorchymyn Cyfuno i alluogi Awdurdodau Tân i gadw cronfeydd wrth gefn ac i ddarparu rhywfaint o hyblygrwydd o ran blaengynllunio ariannol. | • Byddwn yn adolygu polisïau cyfrifyddu'r Awdurdod, gan dalu sylw arbennig i sefydlu cronfeydd wrth gefn a'r defnydd ohonynt. |
| • Mae cyfrifyddu asedau sefydlog yn faes cymhleth sy'n arwain at fwy o risg o wallau yn y datganiadau ariannol. Mae'r amgylchedd economaidd cyfredol hefyd yn golygu bod risg o ddiffyg o ran asedau os yw eu gwerth wedi lleihau. | • Byddwn yn adolygu'r broses gyfrifyddu ar gyfer asedau sefydlog ac ystyriaeth reolwyr o ddiffyg.<br>• Byddwn yn ystyried a yw oes ddefnyddiol asedau sylweddol yn parhau i fod yn briodol. |

| Risgiau datganiadau ariannol | Camau gweithredu arfaethedig |
| --- | --- |
| • Mae'r Awdurdod yn rhan o gynlluniau pensiwn â buddion wedi'u diffinio ar gyfer cyflogeion mewn lifrai a heb lifrai. Mae'r trefniadau cyfrifyddu ar gyfer y cynlluniau hyn yn gymhleth, sy'n cynyddu'r risg o wallau neu hepgoriadau yn y datganiadau ariannol. | • Byddwn yn adolygu'r trefniadau cyfrifyddu ar gyfer y cynlluniau pensiwn ac yn sicrhau y darparwyd datgeliadau yn unol â gofynion y Datganiad o'r Arfer a Argymhellir. |
| • Mae trafodaethau hefyd yn mynd rhagddynt o ran graddau'r iawndal y mae gan ddiffoddwyr tân wrth gefn yr hawl iddo yn dilyn y dyfarniad bod hawl ganddynt i fod yn rhan o gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân a allai arwain at rwymedigaeth sylweddol yn y dyfodol ar gyfer yr Awdurdod. | • Byddwn yn trafod statws presennol y trafodaethau o ran talu iawndal i ddiffoddwyr tân wrth gefn er mwyn penderfynu ar y datgeliad ac unrhyw ddarpariaeth a gynhwyswyd yn y datganiadau ariannol a'u hadolygu. |

## Hawliau etholwyr

9. Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn nodi hawliau'r cyhoedd ac etholwyr i archwilio datganiadau ariannol Awdurdod Tân Gogledd Cymru, gofyn cwestiynau i'r Archwilydd Penodedig am y cyfrifon a, lle y bo'n briodol, herio eitemau yn y cyfrifon.

10. Er na fu unrhyw ymholiadau ynglŷn â datganiadau ariannol Awdurdod Tân Gogledd Cymru mewn blynyddoedd blaenorol, os gwneir unrhyw ymholiadau, bydd unrhyw ymchwiliadau manwl neu waith arall sydd ei angen i ymateb i ymholiadau a gwrthwynebiadau yn arwain at ffi ychwanegol. Codir unrhyw ffi ychwanegol o'r fath ar gyfraddau dyddiol yn seiliedig ar y radd neu gymysgedd sgiliau penodol sydd ei angen ar gyfer y gwaith, ond trafodir hyn gyda Dawn Docx cyn ymgymryd â'r gwaith.

## Gweithio gyda'r Awdurdod

11. Mae'r gwaith sydd wedi'i gynllunio yn mynd i'r afael â'r risgiau a nodwyd ac mae'n seiliedig ar y wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd. Efallai y bydd angen newid y Strategaeth os bydd unrhyw risgiau newydd sylweddol yn codi. Ni weithredir unrhyw newidiadau heb eu trafod yn gyntaf gyda swyddogion a, lle y bo'n berthnasol, y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu.

### Ffi archwilio ariannol

12. Y ffi arfaethedig ar gyfer gwaith archwilio ariannol 2009-10 yw £26,400 (ynghyd â TAW) ac fe'i codir mewn rhandaliadau cyfwerth rhwng mis Tachwedd 2009 a mis Hydref 2010. Mae'r ffi hon yn unol â llythyr ffioedd yr Archwilydd Cyffredinol ac mae'n seiliedig ar fodel ffioedd sy'n seiliedig ar sero newydd yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer gwaith archwilio ariannol.

13. Mae ffi archwilio ariannol 2009-10 yn cynrychioli cynnydd o 1.7 y cant ar elfen gyfatebol cyfrifoldebau'r Archwilydd Penodedig a gynhwyswyd fel rhan o'n ffi ar gyfer 2008-09.

## Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS)

14. Amlygodd llythyr ffioedd archwilio ac arolygu llywodraeth leol yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer 2009-10 (y llythyr ffioedd), a gyhoeddwyd ym mis Medi 2009, effaith cyflwyno Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol ar ffioedd archwilio. Ceir dwy brif agwedd:

- cydnabod cynlluniau Menter Cyllid Preifat/Partneriaeth Cyhoeddus-Preifat ar sail egwyddorion IFRIC 12 yn 2009-10;
- cyflwyno Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol sy'n seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (y Cod) yn 2010-11.

15. Nid yw'r newidiadau mewn perthynas â Mentrau Cyllid Preifat/Partneriaethau Cyhoeddus-Preifat yn berthnasol i'r Awdurdod.

16. Bydd unrhyw waith archwilio a wnaed i adolygu Mantolen agoriadol y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol a ailddatganwyd ar 1 Ebrill 2009 ac ailddatgan ffigurau cymharol 2009-10 yn waith paratoadol mewn perthynas â chyfrifon 2010-11. Er y gellir ymgymryd â'r gwaith hwnnw yn ystod y flwyddyn gyfredol, caiff y ffi ei chynnwys yn ffi archwilio 2010-11 (fel yr amlinellwyd yn y llythyr ffioedd).

## Tîm yr archwiliad ariannol

**Arddangosyn 2: Tîm yr archwiliad ariannol**

| Enw | Rôl | Rhif cyswllt | Cyfeiriad e-bost |
|---|---|---|---|
| Anthony Barrett | Archwilydd Penodedig | 029 2032 0500 | Anthony.barrett@wao.gov.uk |
| Gilbert Lloyd | Partner Ymgysylltu Archwiliad Ariannol | 029 2046 8179 | Gilbert.Lloyd@kpmg.co.uk |
| Jo West | Uwch Reolwr Archwilio | 029 2046 8138 | Joanne.west@kpmg.co.uk |
| Noder: Dylid cyfeirio pob ymholiad at Gilbert Lloyd neu Jo West yn y lle cyntaf | | | |

## Cyflawni'r gwaith

17. Byddwn yn cyflwyno adroddiadau, neu allbwn arall fel y cytunwyd arno, a nodir ein cerrig milltir allweddol isod.

**Arddangosyn 3: Cerrig milltir allweddol**

| Canlyniadau arfaethedig | Dyddiad cychwyn arfaethedig | Llunio'r adroddiad terfynol |
|---|---|---|
| Strategaeth Archwilio Ariannol | 1 Chwefror 2010 | 28 Chwefror 2010 |
| Adroddiad ar y datganiadau ariannol – i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu | 1 Awst 2010 | 31 Awst 2010 |
| Llythyr Archwilio Blynyddol | 1 Medi 2010 | 31 Hydref 2010 |

Atodiad 1

# Rolau a chyfrifoldebau

Ailsefydlwyd swydd yr Archwilydd Cyffredinol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. O 1 Ebrill 2005, ymestynnodd Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol i gynnwys penodi archwilwyr allanol ar gyfer cyrff llywodraeth leol.

## Archwilwyr penodedig

Mae'n rhaid i archwilwyr penodedig gynnal archwiliad sy'n cyflawni'r dyletswyddau statudol a osodwyd arnynt o dan Deddf Llywodraeth Leol 1999 a Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyhoeddi Cod Ymarfer Archwilio ac Arolygu (y Cod) sy'n rhagnodi'r ffordd y disgwylir i'r archwilwyr gyflawni eu swyddogaethau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgynghori ar God diwygiedig ar hyn o bryd.

O dan Reoliad 7 o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005, mae'n ofynnol i gyrff llywodraeth leol yng Nghymru lunio datganiadau cyfrifon blynyddol[2], a baratoir yn unol â'r arferion priodol a nodwyd yn y *Cod Ymarfer perthnasol ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y DU - Datganiad o'r Arfer a Argymhellir*.

Mae Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn ategu'r rheoliadau hyn â chanllawiau i gynorthwyo cyrff llywodraeth leol i weithredu'r gyfundrefn gyfrifyddu. Ni fwriedir i'r canllawiau hynny fod yn rhan o'r fframwaith statudol ond maent yn sylwadaeth anffurfiol sy'n cynnwys syniadau ar arfer da a chyngor ymarferol ac yn rhoi manylion ynghylch ble y gellir dod o hyd i godau cyhoeddedig a gydnabyddir yn gyffredinol sy'n nodi arferion priodol.

O dan Adran 13 o Ddeddf 2004, mae'n ofynnol i gyrff llywodraeth leol yng Nghymru sicrhau yr archwilir eu cyfrifon gan un neu fwy o archwilwyr a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol o dan adran 14 o'r Ddeddf. Mae adrannau 17 a 23 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i archwilwyr penodedig archwilio ac ardystio'r cyfrifon, gan fodloni eu hunain:

- bod y cyfrifon;
  - yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion yr Awdurdod [3];
  - yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol;
  - wedi'u paratoi yn unol ag arferion priodol.
- bod y corff a archwilir wedi gwneud trefniadau cywir ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau;
- bod y corff a archwilir wedi gwneud trefniadau priodol i gasglu, cofnodi a chyhoeddi gwybodaeth am safonau perfformiad fel sy'n ofynnol gan unrhyw gyfarwyddyd o dan Adran 47 o'r Ddeddf.

[2] Gwneir y rheoliadau hyn gan y Cynulliad o dan y pwerau statudol a geir yn Adran 39 o Ddeddf 2004.

[3] Mae hyn yn amodol ar y newidiadau a ragwelir yn y Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio.

## Hysbysu'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu o faterion archwilio - Safon Archwilio Ryngwladol (y DU ac Iwerddon) 260

Mae Safon Archwilio Ryngwladol (y DU ac Iwerddon) 260:

- yn darparu canllawiau ar drosglwyddo gwybodaeth am faterion perthnasol sy'n ymwneud ag archwilio datganiadau ariannol rhwng archwilwyr, a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu corff a archwilir;
- yn ei gwneud yn ofynnol i'r archwilydd gyflwyno adroddiad i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu (yn wahanol i reolwyr) ynglŷn â materion penodol cyn iddo roi barn ar y datganiadau ariannol.

Bydd yr Archwilydd Penodedig yn cyflawni'r cyfrifoldeb o gyflwyno adroddiadau i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu drwy gyflwyno adroddiadau i'r Pwyllgor Archwilio a, lle y bo angen, i'r Awdurdod llawn yn amserol, cyn cwblhau archwiliad.

## Atodiad 2

# Elfennau allweddol o'r gwaith archwilio

| Elfennau allweddol | Gofynion | Sefyllfa yn Awdurdod Tân Gogledd Cymru |
|---|---|---|
| **Gweithgareddau ymgysylltu** | | |
| Telerau'r gwaith archwilio | Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn nodi'r cyfrifoldeb am benodi archwilwyr allanol ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru. | Amlinellir rolau a chyfrifoldebau archwilwyr penodedig uchod ac yn Atodiad 1.<br>Gellir gweld y datganiad llawn o gyfrifoldebau yn:<br>http://www.wao.gov.uk/assets/englishdocuments/statement_of_responsiblities_of_auditors_eng.pdf |
| Penodi archwilwyr a phartneriaid ymgysylltu | Yr Archwilydd Cyffredinol sy'n gyfrifol am benodi archwilwyr allanol ar gyfer llywodraeth leol ac am ddyrannu cyfrifoldeb ar gyfer pob darn o waith archwilio i bartner ymgysylltu. | O dan drefniadau Archwilydd Penodedig Unigol yr Archwilydd Cyffredinol, yr Archwilydd Penodedig yw Anthony Barrett, a gefnogir gan Gilbert Lloyd fel y Partner Ymgysylltu. |
| Gwaith 'anstatudol' | Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi nodi meini prawf clir ar gyfer cymeradwyo gwaith 'anstatudol' y gwneir cais amdano gan gyrff a archwilir ac a arolygir. | Ni wnaed cais am unrhyw waith 'anstatudol' neu nid yw gwaith o'r fath yn yr arfaeth. |
| **Ystyriaethau moesegol** | | |
| Annibyniaeth | Mae'n ofynnol i archwilwyr penodedig ystyried y canlynol:<br>• bygythiadau i annibyniaeth archwilwyr (yn cynnwys ymgyfreitha);<br>• cydberthnasau teuluol a chydberthnasau personol eraill;<br>• cysylltiad hir â'r corff a archwilir, yn seiliedig ar bolisi Swyddfa Archwilio Cymru o gylchdroi archwiliadau;<br>• materion dadleuol neu anodd. | Gallwn gadarnhau nad oes unrhyw fygythiadau hysbys i annibyniaeth yr Archwilydd Penodedig na staff archwilio eraill ac rydym wedi cydymffurfio â pholisi cylchdroi Swyddfa Archwilio Cymru. |
| Perfformiad ymgysylltu | Mae angen i bartneriaid ymgysylltu ystyried pa lefelau o sicrwydd ansawdd a lefelau adolygu sy'n briodol. | Mae systemau adolygu sicrhau ansawdd Swyddfa Archwilio Cymru ar waith ar gyfer pob archwiliad, ac mae'r Partner Ymgysylltu wedi pennu lefelau adolygu priodol sy'n seiliedig ar brofiad y staff sy'n ymgymryd â'r gwaith archwilio. |

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ
Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660
E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk